# Y CABINET DYDD MAWRTH, 12 MEHEFIN 2018

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Peredur Jenkins, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas a Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-** Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol)

Eitem 6: Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol), Nia Morris (Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid)
Eitem 7 ac 8: Garem Jackson (Pennaeth Adra Addysg) a Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo)
Eitem 9: Sioned Owen (Rheolwr Gwasanaeth Dechrau'n Deg) a Rachel Jones (Swyddog Strategol Gofal Plant Gwynedd a Môn)
Eitem 10: Geraint Owen (Pennaeth Adran Gefnogaeth Gorfforaethol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cyng. Dilwyn Morgan ac y Prif Weithredwr Dilwyn Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. W Gareth Roberts ar gyfer eitem rhif 6, gan fod ei fab yng nghyfraith yn gweithio i'r Gwasanaeth Ieuenctid, roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a bu iddo adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan y Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Peredur Jenkins ar eitem 7, gan fod y ddau yn llywodraethwyr yn Ysgol Bro Idris, nid oedd hwn yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 22 MAI 2018

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 22 Mai 2018, fel rhai cywir

## 6. AIL-FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Craig ab Iago

**PENDERFYNWYD**

1. Derbyn yr adroddiad a neilltuo hyd at £50,000 o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer sefydlu cronfa i gynorthwyo Cynghorau Cymuned sydd yn dymuno cynnal Clwb Ieuenctid i bontio'r sefyllfa ariannol hyd y byddent yn sefydlu eu trefn ariannu eu hunain ar gyfer Ebrill 1af 2019

2. Dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd i sefydlu trefn reoli ddarbodus ar gyfer rheoli gwariant y gronfa.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr aelodau yn ymwybodol o gefndir yr eitem. Ychwanegwyd fod Rhybudd o Gynnig wedi ei gyflwyno yn ystod y Cyngor Llawn ar 3 Mawrth a oedd yn gofyn i'r Cabinet ail-ystyried elfennau o'r model newydd. Bu i'r Cabinet edrych ar bob elfen yn unigol.

<u>Newid pwyslais o'r cymunedol i les unigolyn</u>
Pwysleisiwyd mai newid statudol gan y Llywodraeth yw bod y Gwasanaethau Ieuenctid yn cefnogi pobl ifanc gyda'u dysgu a'u haddysgu, gan ganolbwyntio ar bobl ifanc sydd ddim mewn gwaith, hyfforddiant neu addysg. Er hyn, nodwyd fod y gwasanaeth newydd am fod yn cynnig gwasanaeth i bawb ac nid i'r unigolion yma yn unig. Ychwanegwyd fod 14% o bobl ifanc yn mynd i glybiau ac felly nodwyd yr angen am dargedu mwy o bobl ifanc ar draws y sir.

Ychwanegwyd:

- Fod ymgynghoriad wedi ei gynnal gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn holi beth sydd yn bwysig i bobl ifanc - nodwyd y tri pheth a oedd ar y brig oedd Iechyd Meddwl, Tai a Phroblemau Alcohol a Chyffuriau, a oedd yn cyd-fynd a'r sylwadau a gafwyd pan drafodwyd a phobl ifanc am y Gwasanaeth Ieuenctid.
- Nodwyd fod gweithgareddau wedi digwydd ym Mhorthmadog a bod yr adborth yn foddhaol ond holwyd sut beth oedd yr adborth ar draws y sir. Mynegwyd fod rhaglen o weithgareddau wedi ei threfnu ar gyfer yr haf, a'u bod yn ganol trefnu fforymau fel bod modd cael trafodaeth am y math o

weithgareddau gyda phobl ifanc.

- Codwyd Connections yn Lloegr, prosiect a fethwyd. Nodwyd fod y prosiect hwn yn un cenedlaethol a oedd yn benodol ar gyfer gyrfaoedd ac nid ar gyfer Gwasanaeth Ieuenctid. Bu iddo fethu ond fod y Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnig llawer mwy 'na gyrfaoedd yn unig.

Effaith ar ardaloedd difreintiedig

Nodwyd fod Maesgeirchen a Caernarfon yn cael ei gweld fel yr ardaloedd difreintiedig yn unol â diffiniad Llywodraeth Cymru, ond ychwanegwyd fod ardaloedd difreintiedig ar draws y sir. Er hyn, ychwanegwyd, fod yr Asesiad Cydraddoldeb mewn adnabod yr effaith sydd am fod ar y ddwy ardal ac fod y gwasanaeth yn gweithio gyda'r Cyngor Tref yng Nghaernarfon er mwyn edrych ar opsiynau ac eu bod yn gobeithio gwneud yr un peth ym Maesgeichen.

Ychwanegwyd:

- Mae dwy ddeiseb wedi ei gyflwyno i'r Cyngor yng Nghaernarfon yn benodol am Gaernarfon. Nodwyd fod prosiect SPLASH yn parhau yn ystod y gwyliau a bod gweithgareddau am gael eu cynnal yn fwy aml yn yr ardal.
- Holwyd pa fath o fynediad fydd ar gael i bobl ifanc i'r gwasanaeth ieuenctid. Nodwyd fod y staff a rôl o drafod beth yw anghenion y bobl ifanc, yn enwedig gyda'r ardaloedd ble nad oedd y bobl ifanc yn cael mynediad at yr hen wasanaeth.

Effaith ar yr iaith Gymraeg

Nodwyd fod yr iaith wedi codi fel rhan o'r ymgynghoriad a bod 0.2% yn teimlo y byddai'r gwasanaeth ieuenctid newydd yn dirywio'r iaith. Mynegwyd fod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi y byddai'r ail-fodelu drwy gynnal mwy o weithgareddau yn y gymuned yn hybu'r iaith. Ychwanegwyd fod cyfleoedd i hybu'r iaith drwy'r gwasanaeth newydd.

Ychwanegwyd:

- Fod modd i'r gwasanaeth newydd gan ei glynu a gwaith y siarter iaith sydd yn cael ei wneud yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd. Ychwanegwyd y bydd y gwasanaeth ieuenctid yn hybu'r defnydd o Gymraeg yn gymdeithasol.
- Ychwanegwyd fod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Hunan Iaith er mwyn trafod ymhellach ar sut i ddefnyddio a dylanwadu pobl ifanc i ddefnyddio'r iaith.

Cydweithredu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned

Nodwyd yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu yn Ionawr fod angen trafodaeth gyda rhai cynghorau cymuned a thref am ffordd o gydweithredu. Er hyn pwysleisiwyd erbyn hynny ei bod yn hwyr yn y broses i drafod. Nodwyd er hyn mae 32 Cyngor Tref wedi cael llythyr ac mae 11 o'r rhai yn awyddus i drafod ymhellach. Ychwanegwyd fod angen trafodaeth bellach a'r Cynghorau a bydd yr adran yn croesawu trafod sut y bydd modd darparu clwb cymdeithasol.

Ychwanegwyd:

- Os oes modd i drafod a'r Cynghorau ar sut i allu pontio o'r hen wasanaeth i'r gwasanaeth newydd. Nodwyd fod rhai o'r clybiau heb eu diweddaru ers

rhyw 20 mlynedd a bod y byd bellach wedi newydd. Er hyn, mynegwyd os oes awydd i gadw’r clwb y dylid ceisio gwneud hynny ond efallai angen sicrhau cronfa i bontio'r ddau gyfnod.

Cymorth Briodol i’r Mudiadau Ieuenctid Fu’n Derbyn Nawdd
Nodwyd fod y swyddogion yn gweithio gyda’r mudiadau – yn benodol y prif 3 sef Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri, Mudiad Ffermwyr Ifanc Meirionydd ac yr Urdd. Ategwyd fod y berthynas yn un positif a bydd modd i allu cydweithio gyda'r mudiadau er mwyn darparu gwasanaeth i bobl ifanc.

Ychwanegwyd:
- Os oes aelod o staff yn gweithio yn benodol gyda’r mudiadau, mynegwyd mai'r Swyddog Adfywio a’r Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid yw’r pwyntiau cyswllt ar hyn o bryd.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth
- Holwyd pryd fyddai'r asesiadau iaith a chydraddoldeb nesaf yn cael ei gynnal ar y gwasanaeth newydd - nodwyd fod adolygiad parhaus ond fod bwriad o greu asesiad ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf sef Medi 2019.
- Nodwyd fod angen gadael i’r aelodau etholedig a phobl ifanc wybod beth sydd yn mynd ymlaen ac y bydd angen adroddiadau cynnydd. Esboniwyd y bydd hyn yn cael ei fabwysiadu yn syth, gan bwysleisio os na fydd cyfathrebu cryf ni fydd y gwasanaeth newydd yn gweithio.
- Mynegwyd fod arian ar gael yn y Gronfa Trawsffurfio ar gael fel cymorth ar gyfer y cyfnod pontio er mwyn gallu negydu a Chynghorau Cymuned a Thref, Penderfynwyd £50,000 gael ei neilltuo yn benodol ar gyfer hyn.

## 7. ADRODDIAD YSGOL BRO IDRIS

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

### PENDERFYNIAD

Yn gyffredinol, mabwysiadu’r argymhellion yn deillio o adroddiad annibynnol Gareth Williams er mwyn galluogi’r Adran Addysg i’w hymgorffori fel rhan greiddiol o brosesau ad-drefnu a weithredir ganddi ar y cyd a rhan-ddeiliaid eraill mewn dalgylchoedd eraill i’r dyfodol.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai’r prif reswm dros gynnal yr arolwg annibynnol ar y drefn o ddatblygu Ysgol Bro Idris oedd er mwyn dysgu gwersi yn arbennig yn sgil y ffaith fod ehangder a maint y cynllun. Ategwyd fod y comisiwn hefyd yn gyfle i gyfarch rhai pryderon ymysg cyn-aelodau o staff am rai o agweddau'r broses o sefydlu’r ysgol.

Mynegwyd fod y drefn o sefydlu ysgol yn bartneriaeth rhwng yr Awdurdod a’r Corff Llywodraethu Cysgodol. Ychwanegwyd fod yr Awdurdod yn gyfrifol am benderfyniad i agor ysgol a chyflawnai’r adeilad ond y Corff Llywodraethol sy’n

gyfrifol am y camau i sicrhau fod yr ysgol mewn trefn a phennaeth wedi ei benodi a strwythur staffio yn weithredol. Cydnabuwyd fod ysgol ddilynol aml-safle yn arwain at ragor o heriau yn sgil effaith trefniadau ar leoliadau ffisegol. Nodwyd fod yr adran wedi ystyried yr holl argymhellion ac wedi eu derbyn. Mynegwyd o fabwysiadu'r argymhellion, bydd modd i'r Adran ar y cyd a rhan ddeiliaid eraill yn eu hymgorffori fel rhan greiddiol o brosesau ad-drefnu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod yr ysgol yn un arloesol a bod camau yn eu lle er mwyn egwyddorion Dyfodol Disglair. Ychwanegwyd, er y problemau sydd wedi codi, diolchwyd i'r Pennaeth ac athrawon am eu gwaith.
- Mynegwyd pan mae pethau yn mynd o'i le mae angen sicrhau fod yr adran yn dysgu eu gwersi a sicrhau fod pethau yn cael ei wneud yn wahanol.

## 8. BAND B RHAGLEN YSGOLION UNFED GANRIF AR HUGAIN

Cyflwynwyd gan Cyng. Gareth Thomas

**PENDERFYNIAD**

- Cymeradwyo mewn egwyddor blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion Unfed Ganrif ar Hugain yn unol â'r adroddiad.

- Aros am ganlyniad y broses o sefydlu Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor cyn mabwysiadu'r rhaglen derfynol

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod Rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain Llywodraeth Cymru bellach yn dod i ddiwedd gwedd gyntaf y prosiect (Band A). Ychwanegwyd fod Cyngor Gwynedd wedi ei gydnabod fel un o'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn cyflawni eu rhaglen a hyd yma ac o ganlyniad mae'r Llywodraeth wedi cyfeirio dyraniad ychwanegol o £12m o arian gweddilliol i Wynedd er mwyn adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor.

Esboniwyd fod y Llywodraeth bellach yn cyfeirio'i golwg ar yr ail wedd a fydd yn cychwyn yn Ebrill 2019. Derbyniwyd cais gan y Llywodraeth yn gofyn i'r Awdurdodau i sefydlu eu blaenoriaethau ar fyr rybudd. Nodwyd y bydd angen i'r Cyngor gyfrannu 50% o'r arian, a tynnwyd sylw yn ogystal ei bod yn braf gweld plant yn cael eu Dysgu efo'r adnoddau diweddaraf.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd mai talcen caled y prosiect fydd i ddod o hyn i'r arian gan fod gofynion gwario'r Cyngor am fod yn uwch ond bydd angen blaenoriaethu.

## 9. CYNNIG GOFAL PLANT 30 AWR AR GYFER PLANT 3-4 OED

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

**PENDERFYNIAD**

- Cytuno i'r uned gofal plant Gwynedd a Môn, Adran Plant a Theuluoedd cydweithio gyda Chyngor Conwy gan weithredu fel Awdurdod Arweiniol i weinyddu gofal plant 30 awr ar gyfer plant 3-4 oed gan weithredu yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru.
- Fod gweithredu hyn yn amodol fod yr Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc yn cadarnhau'r trefniadau llywodraethu rhwng-awdurdod a sicrhau fod cytundeb partneriaeth briodol mewn lle gyda Chyngor Gwynedd a Chynghorau Ynys Môn a Conwy.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y prosiect yn gweithredu bellach ers bron i flwyddyn ac ers Ebrill 2018 mae'r Llywodraeth wedi cynnwys yr holl ardaloedd yng Ngwynedd a Môn. Ychwanegwyd fod y prosiect wedi bod yn un poblogaidd gyda llawer o deuluoedd yn cymryd y cyfle i gael darpariaeth gofal am ddim i blant 3-4 oed. Mynegwyd fod y sector yn ogystal wedi cymryd y cyfle ac mae datblygiad wedi ei weld yn y maes.

Esboniwyd drefn yr ail wedd o'r prosiect, gan nodi fod y Llywodraeth yn awyddus i Wynedd a Môn gymryd y rôl adweinyddol gyda Conwy yn ymuno a'r prosiect.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Bu i'r aelodau longyfarch y tîm ar eu gwaith, gan bwysleisio ei bod yn arbennig fod y tîm yn gallu defnyddio meddalwedd i sicrhau fod arian yn cyrraedd y busnesau yn y sector ar amser a bod hyn wedi arwain ar ddatblygiad yn y sector.
- Holwyd os yw Gwynedd yn cymryd y rôl arweiniol a fydd angen penodi mwy o staff. Nodwyd y bydd Swyddog Gweinyddol ychwanegol a bydd un o'r swyddogion sy'n gweithio ar y prosiect yn cael ei phrynu gan Gyngor Conwy er mwyn gwneud y gwaith sefydlu'r system yno.
- Ychwanegwyd fod y prosiect yn un sy'n cael ei groesawu gan ei fod yn annog mamau i fynd yn ôl i'r gwaith. Mynegwyd fod y Llywodraeth yn y broses o wneud gwaith ymchwil i weld beth yw'r canlyniadau y flwyddyn gyntaf y prosiect.

## 10. CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23: CAIS AM ADNODDAU O'R GRONFA DRAWSFFURFIO

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

I neilltuo £104,747 o'r Gronfa Trawsffurfio, sef £51,690 yn 2018/19 a £53,057 yn 2019/20 i gefnogi gweithrediad y flaenoriaeth 'Gwireddu Arbedion' o fewn cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai cais yw hwn er mwyn cyflogi Rheolwr Prosiect am gyfnod o 2 flynedd er mwyn cefnogi'r rhaglen gwireddu arbedion newydd. Nodwyd fod yr arian yn dod o'r gronfa draws ffurfio ac mae buddsoddi arian un tro er mwyn dod o hyd i arbedion parhaol yw pwrpas y swydd.

Sgwadiau yn codi o'r drafodaeth

- Ychwanegwyd fod angen sicrhau fod yr unigolyn yn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a bod yn arloesol er mwyn gwarchod gwasanaethau.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.00 y.h.

**CADEIRYDD**